ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Cyngor Caerdydd

MARCHNAD GANOLOG, HEOL EGLWYS FAIR, CAERDYDD

Stondin Wag – I'W GOSOD
Stondin 61/63

Mae Cyngor Caerdydd yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan unigolion sydd am brydlesu stondin ym Marchnad Ganolog Caerdydd.

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together

ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Lleoliad

Mae'r Farchnad Ganolog hanesyddol rhwng Heol Eglwys Fair a Heol y Drindod. Mae ger siop Howells (House of Fraser) yng nghanol y ddinas.

Mae Canolfan Siopa Dewi Sant a Neuadd Dewi Sant yn agos a gellir cerdded yn hawdd i arcedau Fictoraidd enwog y ddinas megis Arcêd y Frenhines ac Arcêd y Castell.

Mae'r stondinau sydd ar gael ar hyn o bryd, fel y'u rhestrir yn yr Atodlen o Stondinau sydd ar Gael ar dudalen 4, ar y llawr gwaelod gyda'u hunion leoliadau wedi'u dangos gyda llinell goch ar y cynllun isod.

Stondin 61 / 63

Heol Eglwys Fair



Heol y Drindod

Howells (Siop House of Fraser)

Llawr Gwaelod

ADRAN YSTADAU STRATEGOL





Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together

ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Stondinau sydd ar gael/Rhent/Tâl Gwasnaeth

Stondin 61

Maint y llawr = 44.13 tr. sg.
Rhent y tr. sg. = £21.00
Tâl gwasanaeth y tr. sg. = £19.26
Rhent misol = £77.23
Tâl gwasanaeth misol = £70.83
Cyfanswm misol £148.06
Rhent blynyddol = £926.73
Tâl gwasanaeth blynyddol = £849.94
Cyfanswm blynyddol = £1776.67

Stondin 63

Maint y llawr = 31.22 tr. sg.
Rhent y sg. tr. = £21.00
Tâl Gwasanaeth y tr. sg. = £19.26
Rhent misol = £54.64
Tâl gwasanaeth misol = £50.11
Cyfanswm misol £104.74
Rhent blynyddol = £655.62
Tâl gwasanaeth blynyddol = £601.30
Cyfanswm blynyddol = £1256.92

Stondinau ar y cyd

Maint cyfan y llawr = 75.35 tr. sg.
Cyfanswm y rhent misol = £131.86
Cyfanswm y tâl gwasanaeth misol = £120.94
Cyfanswm misol = £252.80
Rhent blynyddol = £1582.35
Tâl gwasanaeth blynyddol = £1451.24
Cyfanswm blynyddol £3033.59

Telerau Gosod Arfaethedig

Bydd y tenant yn cydymffurfio â Rheolau, Rheoliadau ac Is-ddeddfau'r Farchnad drwy'r amser. Mae'r Cyngor yn awyddus i hyrwyddo'r Farchnad yn fan cychwyn i fusnesau newydd.

1. Cyfnod:
Mae prydles safonol tan fis Ebrill 2022 (o ddyddiad i gael ei gytuno) ar gynnig.

2. Defnyddiwr:
Ni fydd y tenant yn cyflawni unrhyw fusnes cyfanwerthu yn y stondin nac yn defnyddio'r stondin i werthu nwyddau ar ffurf arwerthiant. Mae'r Cyngor yn ceisio annog amrywiaeth o nwyddau yn y stondinau ac felly ni ddylai eich defnydd arfaethedig fod yr un peth â stondin gyfredol ond dylai gyd-fynd â'r stondinau cyfredol. Rhowch fanylion llawn gyda'ch cyflwyniad.

3. Rhent:
Caiff y rhent cychwynnol ei nodi yn yr atodlen stondinau sydd ar gael a bydd yn daladwy'n fisol trwy Ddebyd Uniongyrchol. Ni fydd y rhent yn newid tan fis Ebrill 2022 pan fydd yr adolygiad nesaf o rent y Farchnad mewn grym.

4. Atgyweiriadau:
Bydd y tenant yn gyfrifol am gadw ardal fewnol y stondin gan gynnwys offer trydanol, gwifrau a phlymio mewn cyflwr da. Mae angen profi dyfeisiau cludadwy bob blwyddyn (Prawf Dyfeisiau Cludadwy) a rhaid rhoi'r holl dystysgrifau i'r Landlord.

5. Yswiriant:
Bydd y tenant yn gyfrifol am yswirio cynnwys y stondin ac ni fydd yn gwneud unrhyw beth neu alluogi i unrhyw beth gael ei wneud yn y stondin a allai niweidio neu ddirymu yswiriant y Cyngor o'r Farchnad.

6. Indemniad:
Bydd y tenant yn indemnio'r Cyngor yn erbyn pob gweithrediad, hawliad, cost, achos o ddifrod, cost neu achos sydd o ganlyniad i ddefnydd y tenant o'r safle, a bydd yn gweithredu a chynnal polisi sy'n yswirio o leiaf £5 miliwn neu unrhyw swm arall a allai gael ei fynnu o bryd i'w gilydd yn Adran Yswiriant y Cyngor, er mwyn darparu indemniad o'r fath.

7. Tâl Gwasanaeth:
Bydd y tenant yn talu rhent tâl gwasanaeth yr holl symiau yr eir iddynt er mwyn gweithredu, rhedeg, cynnal a chadw ac atgyweirio'r Farchnad Ganolog. Mae'r tâl gwasanaeth yn daladwy'n fisol trwy ddebyd uniongyrchol. Adolygir taliadau gwasanaeth bob blwyddyn.

8. Treuliau:
Bydd y tenant yn uniongyrchol atebol i ddewis ddarparwr y tenant a ran costau trydan, ffonau ac unrhyw wasanaethau eraill sy'n gwasanaethu'r stondin. Caiff yr holl ddŵr ei fesur a chaiff is-fesuryddion eu gosod mewn stondinau sydd angen cyflenwad dŵr yn y stondin (e.e. stondinau sy'n gweini neu gyflenwi bwyd neu gynhyrchion bwyd) a chaiff y costau dŵr a charthffosiaeth eu hail-godi trwy anfoneb a/neu yn rhan o'r taliadau gwasanaeth.
Ers 11 Ionawr 2011, mae'r tenant yn uniongyrchol gyfrifol am ardrethi busnes y'u codir ar y stondin. Hefyd bydd y tenant yn gyfrifol pro rata trwy'r tâl gwasanaeth am ardrethi a godir ar ardaloedd a chyfleusterau cyffredin yn y Farchnad.

9. Newidiadau:
Bydd y tenant yn cymryd y stondin yn ei chyflwr gyfredol ac yn defnyddio ei arian ei hun i'w hadnewyddu yn ôl yr angen. Rhaid i unrhyw newidiadau gael eu cyflwyno i Reolwr y Farchnad i gael eu cymeradwyo cyn i unrhyw waith gael ei wneud.

10. Addasrwydd:
Nid yw'r Cyngor yn gwarantu addasrwydd y stondinau ar gyfer defnydd arfaethedig darpar denantiaid. Rhaid i ddarpar denantiaid eu bodloni eu hunain trwy archwiliad neu fel arall fod y stondinau'n addas ar gyfer eu defnydd bwriedig.

11. Masnachu
Bydd y tenant yn masnachu ond yn ystod yr oriau a ganiateir gan oriau Caerdydd: Is-ddeddfau'r Farchnad o bryd o'i gilydd ac eithrio pan allai'r farchnad fod ar gau o ganlyniad i amgylchiadau na all y Cyngor eu rheoli gan gynnwys, heb ragfarn, gyffredinolrwydd gwaith atgyweirio, cynnal a chadw neu wella mawr a chamau gweithredu diwydiannol. Ar hyn o bryd yr Oriau Masnachu yw 08.00 tan 17.30 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn gan gynnwys y diwrnodau hynny, a'r oriau craidd yw rhwng 10.00am a 4.00pm.

12. Niwsans:
Ni fydd y tenant yn gwneud unrhyw beth nac yn caniatáu i unrhyw beth gael ei wneud ar y stondin y mae'r Cyngor yn credu y bydd yn ymyrryd â'r Cyngor, tenantiaid stondinau eraill neu aelodau'r Cyngor neu a fydd yn niwsans iddynt. Ni cheir defnyddio'r stondin at unrhyw ddibenion anghyfreithlon neu anfoesol.

13. Aralliad:
Ni fydd y tenant yn is-osod, codi tâl am, ymwahanu â neu rannu meddiannaeth o'r stondin neu unrhyw ran ohoni.
Ni fydd y tenant yn aseinio'r stondin heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan y Cyngor ac ni chaiff hyn ei wrthod yn afresymol ar yr amod y gallai'r Cyngor wrthod os:
a) nad yw'r busnes sy'n cael ei ddarparu yn y stondin yn cael ei werthu fel busnes parhaus gyda'r aseinî yn parhau i weithredu'r Stondin yn unol â'r 'Cymal Defnyddiwr' cyfredol'.
b) yw unrhyw swm a ddyledus gan y Tenant heb ei dalu
c) ym marn resymol y Cyngor, yw'r aseinî'n annhebygol o allu cyflawni rhwymedigaethau'r tenant yn y Cytundeb.
d) byddai gan yr Aseini'n fuddiant mewn mwy na 1,400 tr. sg. yn y Farchnad

14. Dewis Rhoi'r Gorau i'r Stondin
Bydd gan y tenant y dewis i ildio'r prydles ar ddiwedd y tymor. Os bydd tenant am ildio'r stondinau yng nghanol y tymor, bydd y Cyngor yn marchnata'r stondinau ac ar yr amod bod tenant newydd wedi'i nodi i gymryd y stondin, os felly caniateir i'r tenant ildio yng nghanol y tymor.

15. Arall:
Bydd y prydles yn cynnwys telerau ac amodau eraill y gallai Cyfreithiwr y Sir, yn unol â'i ddisgresiwn, eu hystyried yn briodol ar gyfer

16. Costau:
Bydd y tenant yn gyfrifol am ad-dalu costau cyfreithiol a syrfewyr priodol a rhesymol y Cyngor yn y trafodyn hwn (yn amodol ar leiafswm ar y cyd o £585).

ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Ymweld â'r eiddo

Gellir gweld y stondinau'n allanol yn ystod oriau arferol y Farchnad

I weld y stondin bydd angen i chi gysylltu â Rheolwr y Farchnad, Louise Thomas, i wneud trefniadau addas.

Ffôn: 029 2087 2002 / E-bost: louise.thomas@Caerdydd.gov.uk

Swyddfa'r Farchnad (rhan amser), Marchnad Canol Caerdydd, Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AU

Ffôn: Ffôn: 029 20871214

Amserlenni
Dylid cyflwyno datganiadau o ddiddordeb ynghyd â *manylion penodol* eich *defnydd arfaethedig a chynllun busnes gyda rhagolygon ariannol am 3 blynedd* erbyn dydd Gwener 27 Medi 2019

Dylid dychwelyd y cyflwyniadau i:-
Louise Thomas, Ystadau Strategol, Datblygu Economaidd, YB4 Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Cysylltu:
Yn ystod y cyfnod marchnata, gall partïon â diddordeb gysylltu â'r swyddogion canlynol am fwy o wybodaeth/i gael trafodaethau anffurfiol.

Louise Thomas
Rheolwr y Farchnad
Datblygu Economaidd
Isadran Ystadau Strategol, CY4 Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: 029 2087 2002
E-bost: louise.thomas@caerdydd.gov.uk

ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Yn dilyn y dyddiad cau ddydd Gwener 21 Medi 2019 am 12.00pm bydd y Cyngor yn gwerthuso'r cyflwyniad/au ac wedyn yn cysylltu â'r partïon â diddordeb gyda'r bwriad o fynd â'r mater yn ei flaen. Caiff rhestr fer o ymgeiswyr ei gwahodd i gyfweliad. Gellir cael crynodeb hefyd ar wefan Ystadau Strategol

www.cardiffcouncilproperty.com

Ymwadiad:

1. Rhoddir yr wybodaeth uchod a'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn amlinelliad cyffredinol yn unig yn arweiniad i bartïon â diddordeb ac nid yw'n rhan o gynnig neu gontract.

2. Rhoddir yr holl ddisgrifiadau, dimensiynau, cynlluniau, cyfeiriadau at amodau a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnyddio a meddiannu a manylion eraill heb gyfrifoldeb a ni ddylai unrhyw bartïon â diddordeb ddibynnu arnynt yn ffeithiau ond dylai fodloni ei hun trwy archwilio neu fel arall gywirdeb pob un ohonynt.

3. Nid oes gan unrhyw berson a gyflogir gan Gyngor Caerdydd awdurdod i wneud neu roi unrhyw sylwadau neu warant o gwbl mewn perthynas â'r eiddo neu dir hwn.

4. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig / datganiad o ddiddordeb a dderbynnir.

ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Gwybodaeth gefndir

Enw	
Cyfeiriad	
Ffôn	
E-bost	
Llofnod	
Hawl gweithio yn y DU	
Cyflogaeth bresennol	
Profiad blaenorol	
Manylion llawn ynghylch y defnydd a gynigir	
Cynllun Busnes a Rhagamcanion wedi eu hatodi	
Unrhyw wybodaeth ategol arall	